Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Bwyd (Diwygiad) (Ymadael â'r UE) 2019** |
| **DYDDIAD** | **19 Chwefror 2019** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

**Rheoliadau Bwyd (Diwygiad) (Ymadael â'r UE) 2019**

**Trosolwg polisi o'r Offeryn Statudol (OS)**
Yn bennaf, bydd y Rheoliadau hyn yn cywiro'r diffygion yn neddfwriaeth uniongyrchol yr Undeb Ewropeaidd (UE) a ddargedwir sy'n gosod y fframwaith ar gyfer arddangos gwybodaeth/labelu bwyd gorfodol, ei gyflwyniad, yn ogystal â gweithdrefnau lle mae busnesau bwyd yn penderfynu arddangos gwybodaeth yn wirfoddol.

Mae deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir yn caniatáu i ddefnyddwyr wneud dewisiadau gwybodus ac i ddefnyddio bwyd yn ddiogel. Mae'n cynnwys rheolau ar:

- eglurdeb labeli,
- alergenau wedi'u cyflwyno'n glir ar fwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw, a bwyd heb ei becynnu ymlaen llaw.
- Cynhyrchion wedi'u nodi'n glir â 'cig wedi'i ffurfio' (*formed meat*), 'pysgod wedi'u ffurfio' (*formed fish*) neu gynhyrchion wedi'u dadmer.

Mae'r Offeryn Statudol hwn hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Pwysau a Mesurau 1985 mewn perthynas â dangos maint net, ac i gyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir ar ddefnyddio alwmina actifedig wrth drin dŵr mwynol naturiol a dŵr ffynnon. Mae'r newidiadau yn rhai bychain iawn ac yn dechnegol, ac nid oes unrhyw newidiadau i bolisi.

**Cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n cael ei diwygio**

- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 115/2010 sy'n gosod yr amodau ar gyfer defnyddio alwmina actifedig i gael gwared â fflworid o ddyfroedd mwynol naturiol a dyfroedd ffynnon
- Rheoliad (UE) Rhif 1169/2011 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ddarparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr
- Deddf Pwysau a Mesurau 1985

**Unrhyw effaith y gall yr Offeryn Statudol ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Mae'r OS ond yn gwneud mân gywiriadau technegol i gyfraith yr UE a ddargedwir ac nid yw'n cynnwys trosglwyddo unrhyw un o swyddogaethau'r Comisiwn Ewropeaidd. O ganlyniad, nid oes unrhyw effaith ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru na chymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

**Diben y diwygiadau**

Prif bwrpas y gwelliannau yw cywiro diffygion mewn deddfwriaeth sy'n codi wrth i'r DU ymadael â'r UE o ran rheoleiddio'r ddarpariaeth o wybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr. Byddant yn cyflwyno mân ddiwygiadau technegol i gyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir, megis:

- amnewid 'Undeb' gydag 'UK;
- 'Darpariaethau'r Undeb' gyda 'deddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o'r UE a deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir'
- cael gwared ar gyfeiriadau at sefydliadau'r UE ac Aelod-wladwriaethau eraill.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud diwygiadau technegol, nad ydynt yn newid polisi yn sylweddol mewn unrhyw ffordd, i ddarpariaeth ynghylch iaith labelu bwyd gorfodol.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud diwygiadau technegol i groesgyfeiriadau at Gyfarwyddebau yn Rheoliad 115/2010 ar ddefnyddio alwmina actifedig i gael gwared ar fflworid o ddŵr mwynol naturiol a dŵr ffynnon.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i adran 31A o Ddeddf Pwysau a Mesurau 1985 i adlewyrchu newidiadau a wnaed i ddwy Erthygl yn Rheoliad 1169/2011. Nid oes newid sylweddol i bolisi.

Nid yw'r OS hwn yn trosglwyddo unrhyw un o swyddogaethau'r Comisiwn Ewropeaidd ac felly caiff ei gynnig fel un negyddol.

Gellir gweld yr OS a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith bob diwygiad, yma: https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-food-amendment-eu-exit-regulation-2019

**Pam rhoddwyd caniatâd**

Nid oes unrhyw wahaniaethau rhwng Llywodraeth Cymru/ASB Cymru a Llywodraeth y DU (Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig) ar y polisi ar gyfer y cywiriadau. Felly, byddai creu OSau ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu, a chymhlethu'r llyfr statud heb fod angen. Bydd cydsynio i OS ar gyfer y DU i gyd yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU sy'n hyrwyddo eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. Dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae ASB Cymru / Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol fod Llywodraeth y DU yn deddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.